

Edrych ar ôl  
**DŴR**  
yneich cartref

CANLLAW DEFNYDDWYR



Dŵr Cymru  
Welsh Water



**WATER UK**

Fersiwn ar-lein gydag opsiynau testun amgen ar wefan Water UK:  
[http://www.water.org.uk/Looking\\_after\\_water\\_in\\_your\\_home](http://www.water.org.uk/Looking_after_water_in_your_home)

# Cynnwys

*Mae dŵr tap y Deyrnas Unedig ymhlith y mwyaf diogel ac uchaf ei safon yn y byd.*

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan y diwydiant dŵr er mwyn eich helpu i fwynhau ansawdd eich dŵr tap. Mae'n ateb cwestiynau am sut i edrych ar ôl dŵr yn eich cartref.

## Y TO

Storio dŵr.....	6
Tanc mewn cyflwr da? .....	7
Gorchudd ar y tanc.....	7

## YSTAFELL YMOLCHI

Staenio .....	8
Staenau pinc/coch .....	8
Llywdni .....	8



## Y GEGIN

Hylendid tapiau .....	1
Blas ac arogl.....	1
Clorin .....	1
Problemau blas ac arogl cysylltiedig â pheiriannau golchi dillad a llestri .....	2
Blas anarferol ar ddiodydd poeth?.....	3
Dŵr afliwiedig .....	3
Dŵr cymylog .....	3
Dŵr brown .....	3
Dŵr cynnes .....	4
Dŵr cynnes o'r tap oer .....	4
Ffilterau dŵr.....	4
Meddalyddion dŵr.....	5
Pa mor galed yw'r dŵr? .....	5
Troi i fwrdd cyflenwad dŵr .....	6

## TU ALLAN Y CARTREF

Tapiau & pibellau tu allan.....	8
Gollwng cemegau .....	9

## GWYBODAETH ARALL

Pibellau plwm .....	10
Gostwng lefelau plwm? .....	11
Cyfrifoldeb am bibellau .....	11
Dychwelyd i adeilad gwag.....	12
Paratoi ar gyfer y gaeaf .....	12
Dŵr glas .....	12
Cyngor gwaith plymwr .....	13
Plymwyr cymeradwyedig .....	13
Linciau defnyddiol .....	14



## Y gegin

### HYLENDID TAPIAU

Mae'n bwysig cadw tapiau dŵr yfed yn lân. Er bod y dŵr yn cyrraedd eich tap yn ddiogel, bydd bacteria'n bresennol yn y gegin, gyda rhai'n gallu tyfu tu fewn a thu allan y tapiau. Ni fyddant yn amlwg, ond gallant gyrraedd tapiau o fwyd neu wrth olchi eitemau yn y sinc. Felly, cofiwch osgoi cyffwrdd pen y tapiau gyda bwyd.

### BLAS AC AROGL

Yn achlysurol gall cwsmeriaid yn sylwi blas neu arogl gwael ar eu dŵr tap. Yn aml bydd yn debyg i arogl clorin, yn blasu'n chwerw neu'n debyg i foddion. Weithiau bydd hynny mewn diodydd poeth yn unig, yn arbennig te, neu pan fydd gwydr dŵr wedi sefyll am amser.

Gall fod nifer o resymau am hynny a nodir y rhai cyffredin isod. Fodd bynnag, os yn sylwi blas neu arogl anarferol ar y dŵr, galwch eich cwmni dŵr er mwyn ymchwilio'r problem.



- **Glanhau tapiau'n rheolaidd gyda diheintydd, yn arbennig tu fewn y pig.**
- **Ar ôl glanhau tap, rhedeg y dŵr am ychydig er mwyn gwaredu unrhyw ddiheintydd yn weddill.**
- **Osgoi gadael clwtyn llestri ar y tap i sychu.**

### Clorin

Ychwanegir clorin fel diheintydd wrth drin dŵr er mwyn lladd organebau sy'n achosi clefydau. Yn gyffredinol, bydd rhywfaint o glorin yn parhau yn y dŵr sy'n cyrraedd y tap er mwyn cynnal safon dŵr yfed drwy'r rhwydwaith.

Bydd rhai pobl yn fwy sensitif nag eraill i arogl neu flas clorin ac weithiau gallant sylwi newid yn y lefelau clorin. Gallai hynny ddeillio o waith gan y cwmni dŵr ar y rhwydwaith, neu gyflenwi dŵr o waith trin arall.



Os yw blas clorin yn annerbyniol i chi, un ateb yw llenwi jwg o'r tap a'i gadw yn yr oergell. Bydd y dŵr oer yn blasu'n well ar ôl colli arogl neu flas y clorin. Cofiwch roi gorchudd ar y jwg ac osgoi cadw'r dŵr am fwy na 24 awr.

## Problemau blas ac arogl yn gysylltiedig â pheiriannau golchi dillad a llestri

Erbyn hyn cysylltir y rhan helaeth o beiriannau golchi â'r system ddŵr ond weithiau ni fydd y cysylltiad yn gywir. Dylai pob cysylltiad gynnwys falf unffordd er mwyn rhwystro dŵr o fewn pibellau'r peiriannau rhag dychwelyd i'r cyflenwad dŵr a chyrraedd y tap. Os bydd hynny'n digwydd, byddwch yn debyg o gael blas rwber neu blastig ar eich dŵr tap. Yn ogystal, bydd pibellau peiriannau'n dirywio dros amser gan ryddhau blasau ac aroglau cemegol i'r dŵr, a sylwir yn arbennig mewn diodydd poeth. Bydd gosod falfiau unffordd yn osgoi'r broblem honno.



### Profi os yw blas ac arogl dŵr yn dod o beiriant golchi llestri neu ddillad?

Un ffordd syml o wirio os taw peiriant golchi yw achos problem yw troi i ffwrdd y falfiau'n rheoli'r llif dŵr i'r peiriant. Rhedwch y tap dŵr yfed am gyfnod byr i glirio'r pibellau ac yna blasu'r dŵr. Os yn datrys y broblem blas, gosodwch falf unffordd ar ben y bibell ble mae'n cysylltu â'r rhwydwaith dŵr. Cofiwch osod pibellau a wasieri gyda logo WRAS. Bydd eich cwmni dŵr, siop DIY ac ati yn gallu rhoi cyngor.

Cofiwch edrych am logo 'WRAS Approved' logo. Mae'n profi fod y cynnyrch yn dilyn rheoliadau o ran peidio ag effeithio ansawdd dŵr yfed.

Manylion pellach yn: **Cyngor pibellau preswyl**, tudalen: 13.

Ac yn [www.wras.co.uk](http://www.wras.co.uk).



*Pibell peiriant golchi gyda falf unffordd ar y dde.*

## Blas anarferol ar ddiodydd poeth?

Os yn sylwi blas 'moddion' neu 'plastig' ar ddiodydd poeth yn unig, gall ddeillio o'r sêl rhwng elfen y tegell a'r dŵr. Byddwch yn ei sylwi'n arbennig gyda thegellau newydd.



### Profi os yw blas ac arogl dŵr yn dod o'r tegell?

Paratoi diod boeth gyda dŵr mewn sosban a chymharu â blas diod o'r tegell. Os yn blasu'n wahanol, mae'n debyg mai'r tegell fydd achos y problem.



## DŴR AFLIWIEDIG

### Dŵr cymylog

Efallai bydd eich dŵr tap yn edrych yn gymylog. Gan amlaf bydd yn digwydd yn gynnar yn y bore neu pan fydd tap heb redeg am gyfnod. Yr achos mwyaf cyffredin yw swigod aer bach.

Gallwch gadarnhau hynny wrth lenwi gwydr dŵr a'i adael am ychydig, gan weld y cymylau'n diflannu o waelod y gwydr i'r top. Mae aer mewn dŵr yn gwbl ddiwed ac yn aml bydd addasu gosodiad y stoptap (fel arfer o dan y sinc) yn datrys y problem.

**Manylion pellach - stoptap: [Tro i ffwrdd cyflenwad dŵr, tudalen 6](#)**

Yn achlysurol bydd y dŵr yn gymylog yn dilyn rhwyg mewn pibell neu waith cynnal a chadw gan y cwmni dŵr. Os bydd eich dŵr yn gymylog am y tro cyntaf, neu os yw'r dŵr wedi para'n gymylog am fwy na diwrnod – a'ch cymdogion yn wynebu'r un problem – galwch eich cwmni dŵr.

Os bydd y cymylau'n clirio o'r top i'r gwaelod efallai bydd sialc yn y dŵr. Cysylltwch â'r cwmni dŵr.

### Dŵr brown

Weithiau, gall y dŵr gymryd arlliw brown. Bydd hynny oherwydd presenoldeb hen bibellau haearn, sy'n rhydu dros amser gyda dyddodion yn setlo o fewn y pibellau. Os bydd newid cyflym mewn cyfeiriad neu gyflymder o fewn y rhwydwaith gall y dyddodion fynd i'r dŵr.

Gall hynny ddeillio o nifer o resymau, er enghraifft pibell yn rhwygo, ailgysylltu pibell ar ôl gwaith trwsio, symud dŵr o un ardal i'r nesaf mewn ymateb i'r galw neu'r gwasanaeth tân yn defnyddio llawer o ddŵr i daclo argyfwng. Gall hefyd godi os bydd y bibell wasanaeth yn cysylltu â'ch cartref mewn cyflwr gwael.

**Manylion pellach – pibellau gwasanaeth: [Cyfrifoldeb am bibellau dŵr, tudalen 11.](#)**

Fel arfer, bydd y cwmni dŵr yn eich rhybuddio ymlaen llaw o waith cynlluniedig ar y rhwydwaith dŵr a risg o ddŵr afliwiedig, a bydd yn eich hysbysu o'r camau i'w dilyn. Os na fyddwch wedi derbyn rhybudd a dŵr brown yn dod o'r tap, rhedwch y tap tan i'r dŵr glirio. Os na fydd y dŵr yn clirio ar ôl 30 munud hysbyswch eich cwmni dŵr.

Holwch os yw dŵr eich cymdogion hefyd yn afliwiedig. Os nad yw, efallai bydd y problem yn gysylltiedig â phibellau eich cartref a dylech gysylltu â phlymwr cymwys.

## Dŵr yn staenio'r londri?

Ar adegau gall haearn yn y dŵr staenio eich londri.

Os bydd hynny'n digwydd, yn y lle cyntaf gwiriwch fod y cyflenwad dŵr yn glir ac yna ail-olchwch y dillad gan ddilyn y camau syml isod:

- Cadw'r dillad yn llaith a rhedeg y tap tan i'r dŵr droi'n glir
- Defnyddio glanedydd synthetig yn hytrach na sebon naturiol
- Peidio ychwanegu cannydd
- Osgoi berwi'r dillad
- Rinsio dillad â llaw
- Os achoswyd y staenio gan y cyflenwad dŵr, efallai bydd eich cwmni dŵr yn gallu darparu crystalau asid sitrig fydd yn helpu i waredu'r staeniau. Bydd yn bwysig cadw'r dillad yn llaith tan i chi ddefnyddio'r crystalau.



## DŴR CYNNES?

### Dŵr cynnes o'r tap oer?

Gall hynny ddigwydd os yw eich pibell oer yn agos at bibell dŵr poeth neu bibellau gwres canolog yn eich cartref. Gall hefyd ddigwydd wrth ddefnyddio tap cymysgu. O ganlyniad efallai bydd angen rhedeg y tap oer am gyfnod sylweddol a gwastraffu dŵr tan i'r tymheredd ostwng. Bydd gosod deunydd inswleiddio rhwng eich pibellau'n datrys y problem.

## FFILTERAU DŴR

Mae ansawdd dŵr tap y Deyrnas Unedig yn uchel iawn ac yn destun profion a mesurau monitro caeth. Mae'n berffaith saff ac iachus i'w yfed. Fodd bynnag, mae'n well gan rai pobl ddefnyddio ffilterau i waredu olion clorin o ddŵr yfed. Gellir eu cysylltu â'r cyflenwad dŵr neu ddefnyddio ffilterau jwg. Bydd rhai ffilterau hefyd yn gostwng caledwch y dŵr sy'n gallu creu calch mewn tegellau ac effeithio golwg diodydd poeth. Cofiwch ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd ar bob amser.

Dyfeisiwyd ffilterau jwg i ffitro dŵr i wydr neu flwch plastig. Dylid trin y dŵr fel unrhyw fwyd a'i ddefnyddio cyn gynted â phosibl. Mae'n well ei storio mewn oergell a'i waredu ar ôl 24 awr rhag ofn bydd yn cynnwys bacteria.


Mae ffilterau parhaol yn cysylltu â'r cyflenwad dŵr drwy'r tapiau arferol neu dap arbennig. Rhaid i ffilter o'r fath ddilyn amodau'r Rheoliadau Gosodiadau Dŵr.

Fel arfer bydd ffilterau jwg ac eraill yn cynnwys mwy nag un getrisen a bydd rhaid eu newid o bryd i'w gilydd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Cymrwch ofal wrth newid y cetris wrth eu cyfnewid. Os yn eu difrodi, gall gronynnau bach iawn ymddangos yn y dŵr ffilter a bryd hynny dylech newid y cetris yn syth.

## MEDDALYDDION DŴR

Bydd rhai pobl mewn ardaloedd dŵr caled yn meddalau eu dŵr er mwyn atal dyddodion calch rhag datblygu mewn bwyleri, tegellau ac offer arall. Bydd meddalau'r dŵr hefyd yn galw am lai o lanedyddion wrth olchi dillad.

Halwynau calsiwm a magnesiwm sy'n gwneud dŵr yn galed, gyda'r caledwch yn cynyddu os bydd mwy o'r halwynau'n bresennol yn y dŵr. Mae'r map yn nodi ardaloedd dŵr caled a meddal Ynysydd Prydain.



Bydd yr halwynau naturiol sy'n achosi dŵr caled hefyd yn creu blas ffres, a gollir wrth feddalau'r dŵr. Yn ogystal, mae calsiwm a magnesiwm yn elfennau hanfodol o'n diet. Felly, os yn gosod meddalydd dŵr, awgrymwch eich bod yn trefnu tap dŵr yfed ar wahân heb feddalydd.

Bydd y rhan fwyaf o feddalyddion yn disodli calsiwm a magnesiwm gan osod sodiwm yn ei le. Felly, bydd yn bwysig iawn defnyddio dŵr o dap heb ei feddalu wrth gymysgu powdr llaeth babis. Y rheswm am hynny yw bod llaeth powdr eisoes yn cynnwys digon o sodiwm, ac ni fydd babis ifanc iawn yn gallu cymryd gormod o'r halen. Dylai unrhyw un ar ddietau sodiwm cyfyng ddilyn cyfarwyddiadau'r meddyg.

Rhaid i'r cyflenwad dŵr drwy feddalydd fynd drwy falf unffordd er mwyn rhwystro'r dŵr rhag dychwelyd i'r rhwydwaith. Manylion pellach ar wefan WRAS: [www.wras.co.uk](http://www.wras.co.uk)

## Pa mor galed yw'r dŵr?

Holwch eich cwmni dŵr os am wybod caledwch eich dŵr tap, er enghraifft os am brynu peiriant golchi llestri. Erbyn hyn mae llawer o gwmnïau dŵr yn nodi'r wybodaeth ar eu gwefannau, gan hwyluso chwilio fesul cod post neu fapiau manwl o'u hardaloedd.

## TROI I FFWRDD CYFLENWAD DŴR

Bydd yn werth dod o hyd i'r stoptap a sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Fel arfer, bydd y stoptap ar y pibellau o dan sinc y gegin neu mewn toiled lawr llawr, neu hyd yn oed mewn seler.

Os yn datgelu gollyngiad tu fewn eich cartref bydd angen troi i ffwrdd y stoptap mewnol er mwyn atal llifogydd a difrod.



# Yn y to

## STORIO DŴR

Bydd tanc dŵr oer mewn crogllofftydd llawer o hen adeiladau. Gan fwyaf, bydd yn bwydo dŵr oer i ystafelloedd ymolchi fyny grisiau yn unig, ond mewn rhai bydd yn bwydo pob tap dŵr oer yn yr adeilad. Mae cyflwr y tanc yn gallu cael effaith sylweddol ar ansawdd dŵr eich cartref.


Yn ddelfrydol, dylid defnyddio tapiau'n derbyn cyflenwad uniongyrchol ar gyfer dŵr yfed. Fodd bynnag, os bydd eich dŵr yfed, neu ddŵr golchi dannedd, yn dod o danc stôr dylech wirio'r isod:

## Eich tanc mewn cyflwr da?

Yn draddodiadol cynhyrchwyd tanciau o haearn galfanedig ac roeddent yn rhydu dros amser, gyda gronynnau rhwd a haearn yn mynd i'r dŵr. Gallai hynny arwain at ddarnau bach yn y dŵr neu ymddangos yn felyn neu frown. Gall hefyd gymryd blas mete.

Erbyn hyn, cynhyrchir tanciau o blastig (polyethylen) ac nid ydynt yn debyg o achosi problemau, cyn belled y cynlluniwyd ar gyfer dŵr yfed a'n bod yn cynnwys clawr tynn. Dewiswch un gyda logo WRAS, fydd wedi profi'r deunydd er sicrhau na fydd yn trosglwyddo blas neu arogl i'r dŵr, neu hyrwyddo tyfiant bacteria.

Manylion pellach am ddeunyddiau cymeradwyedig: **Cyngor pibellau preswyl**, tudalen: 13.



## Clawr ar y tanc?

Bydd angen tanc gyda clawr tynn o ddeunydd addas, na fydd yn dirywio neu'n caniatáu tyfiant bacteria neu lwydni a allai syrthio i'r dŵr. Rhaid i'r clawr atal deunyddiau rhag cwmpo a llygru'r cyflenwad dŵr. Gall adar, llygod neu bryfed fynd i mewn i danciau heb clawr tynn. Gallai hynny achosi unrhyw beth, megis gronynnau yn y dŵr, blasau ac aroglau anarferol a hyd yn oed wneud pobl yn sâl. Am yr un rheswm bydd yn werth rhoi rhwyll ar bob fent.

Dylech hefyd inswleiddio'r tanc dŵr a'r pibellau yn y to er mwyn atal rhag rhewi a rhwygo yn y gaeaf, a chynhesu yn yr haf pan fydd gofod y to'n gallu bod yn boeth iawn. Peidiwch â gosod deunydd inswleiddio o dan y tanc oherwydd bydd gwres yn codi o'r ystafell isod yn helpu i atal y dŵr rhag rhewi.

Dylai pob tanc gynnwys pibell orlif i gludo unrhyw ddŵr dros ben yn ddiogel o'r cartref. Fel arall, gallai lifo i'r cartref. Os yn gweld dŵr yn dod allan o'i gorlif, bydd yn arwydd fod y tanc yn gorlenwi. Fel arfer, bydd angen trwsio neu adnewyddu'r falf pêl a dylech gysylltu â phlymwr cymwys yn syth.



# Ystafell ymolchi

## STAENIO

### Staenau pinc / coch

Nid dŵr sy'n achosi'r lliw cochbinc a welir weithiau ar gyrtens cawodydd, seliau bath, neu o amgylch tapiau, ond tyfiant bacteria neu furum. Mae'r ddau yn ffynnu mewn llefydd cynnes a llaith fel ystafelloedd ymolchi. Ni fydd eu presenoldeb yn awgrymu problem gydag ansawdd y cyflenwad dŵr.

Yr ateb i'r broblem yw sychu'r arwynebau gwlyb ac awyru'r ystafell wrth agor ffenestr neu osod ffan er mwyn sychu'r ystafell cyn gynted â phosibl. Bydd deunyddiau glanhau a diheintio, neu gannydd yn lladd yr hadau bacteria a burum.

### Llwydni

Mae staenau du, llwyd neu goch o gwmpas tapiau yn yr ystafell ymolchi, growt rhwng teils ac mewn dreiriau powdr golchi dillad yn eithaf cyffredin. Achosir nhw gan bresenoldeb llwydni sy'n ffynnu mewn mannau llaith. Bydd y broblem yn waeth mewn llefydd heb fesurau awyru da, neu os defnyddir caniau aerosol (sy'n bwydo'r llwydni).

Bydd awyru'r ystafell a defnyddio deunyddiau glanhau'n rheolaidd yn helpu i isafu'r broblem.





# Tu allan y cartref

## TAPIAU & PIBELLAU DYFRIO

Mae cysylltu pibell ddŵr â thap tu allan yn gallu bygwth ansawdd dŵr cartref. Os digwydd i'r pwysedd dŵr ostwng yn sydyn, gellir tynnu dŵr budr o'r bibell i mewn i'r cartref. Yr ateb syml yw gosod falf unffordd ar y tap allanol.



• *Diogelu tapiau tu allan gyda falfiau unffordd. Mae rhai tapiau newydd yn cynnwys falfiau fel hyn neu gellir eu prynu ar wahân.*

- *Atal rhag rhoi pen pibell ddyfrio mewn draeniau, pyllau dŵr, bwcedi neu ganiau dŵr yn cynnwys cemegau o unrhyw fath.*
- *Gosod gwn chwistrelli ar bibellau dŵr a'u defnyddio â llaw.*

## GOLLWNG CEMEGAU AR LWYBRAU NEU'R ARDD

Mewn tai modern, bydd pibellau plastig yn cysylltu â'r cyflenwad dŵr yn y stryd (fel arfer alcathen du neu MDPE glas). Defnyddir plastig oherwydd ei hyblygrwydd a'i wydnwch.

Mae cynnyrch fel olew, petrol, disel a chreosot yn cynnwys cemegau sy'n gallu rhedeg trwy lwybrau a'r pridd gan gyrraedd y pibellau plastig ac effeithio blas neu arogl y dŵr. Felly, cymrwch ofal i osgoi gollwng cemegau neu danwydd ar y ddaear uwchben pibellau sy'n gwasanaethu eich cartref. Os llygrir pridd neu bibellau fel hyn yr unig ateb yw adnewyddu'r bibell gyda phibellau metel, sef gwaith yn galw am blymwr cymwys.

Os yn sylwi gollyngiad cemegol, er enghraifft os bydd olew neu danwydd yn gollwng o gerbyd ar y llwybr neu os yn gollwng olew gwresogi, cofiwch waredu cymaint â phosibl yn syth. Os bydd gollyngiad mawr, cysylltwch â'r awdurdod lleol i holi am wasanaethau i'ch helpu.

Os bydd blas neu arogl anarferol ar eich cyflenwad dŵr yn dilyn gollyngiad cemegol neu danwydd, cysylltwch â'r cwmni dŵr yn syth er mwyn cael cyngor ar y camau i'w cymryd.



# Gwybodaeth ddefnyddiol

## PIBELLAU PLWM

Bydd plwm yn dod o amryw ffynonellau a gall fod yn bresennol yn yr aer, bwyd, pridd neu ddŵr. Fodd bynnag, gall gronni yn y corff ac achosi problemau iechyd, yn arbennig i blant ifanc.

Ni fydd plwm yn y dŵr pan fydd yn gadael gwaith trin. Fodd bynnag, gall gronni yn y dŵr os bydd y bibell wasanaeth (yn cysylltu eich cartref a'r bibell rhwydwaith yn y stryd) yn blwm. Gall hefyd ddeillio o unrhyw bibellau plwm mewnol ac uniadau solder yn y cartref. Felly, bydd yn bwysig defnyddio plymwr cymwys er mwyn osgoi cysylltu pibellau newydd gyda solder anghywir (ond gellir dal defnyddio solder plwm gyda systemau gwresogi caeedig).

Bydd cwmnïau dŵr yn cymryd samplau dŵr rheolaidd ar hap er mwyn sicrhau bydd y cyflenwad dŵr yn cynnal y safon uchel a fynnir gan ddeddfwriaeth. Os bydd lefelau plwm sampl statudol o'ch cartref yn uwch na'r safon, bydd y cwmni dŵr yn adnewyddu unrhyw bibellau dŵr ar ochr y cwmni o'r bibell wasanaeth yn ddi-dâl ac yn eich hysbysu o'r gwaith. Bydd hefyd yn argymhell perchennog y cartref i adnewyddu unrhyw bibellau plwm mewnol.

Y perchennog sy'n gyfrifol am y rhan honno o'r bibell wasanaeth o fewn ffin yr eiddo, felly bydd yn gyfrifol am adnewyddu honno ac unrhyw bibellau plwm tu fewn yr adeilad.



### Pibellau plwm yn fy nghartref?

Os adeiladwyd eich cartref cyn 1970 mae'n bosibl bydd yn cynnwys pibellau plwm. Os adeiladwyd ar ôl 1970 nid yw'n debyg o gynnwys pibellau plwm.

Os moderneiddiwyd eich cartref ers 1970 gan adnewyddu'r holl bibellau o stoptap y cwmni tu allan eich cartref i dap y gegin, ni ddylai fod unrhyw bibellau plwm yn eich cartref.

Os yn ansicr, dilynwch y camau isod:

Edrych tu ôl/tu fewn cypyrddau'r gegin. Bydd hefyd yn werth edrych mewn llefydd eraill ee cwpwrdd dan y grisiau er mwyn cael hyd i'r bibell yn bwydo tap y gegin. Edrych ar gymaint o'i hyd á phosibl er mwyn gweld os yw'n bibell blwm. Bydd pibellau plwm heb eu paentio'n llwyd mat ac yn feddal iawn. Wrth grafu'r wyneb gyda chylllell byddwch yn gweld y metel arian oddi tano.

Os yn amau'r canlyniadau, gofynnwch am gyngor plymwr cymwys, y cwmni dŵr neu'r awdurdod lleol Gallwch hefyd ofyn y cwmni dŵr i brofi'r dŵr ger tap y gegin, oherwydd efallai na fydd problem, hyd yn oed os oes pibellau plwm yn eich cartref.

## Camau i ostwng lefelau plwm?

Os oes pibellau plwm yn eich cartref dyma rai camau byr dymor gallwch gymryd:

- Osgoi yfed dŵr fydd wedi sefyll yn y pibellau am gyfnod, ee dros nos neu os na fydd y tapiâu wedi rhedeg am sawl awr
- Bryd hynny, llenwch lond powlen golchi llestri er mwyn clirio'r dŵr yn sefyll yn y pibellau. Peidiwch â gwastraffu'r dŵr yma, rhowch ar yr ardd ac ati.

Yna defnyddiwch y dŵr tap fel arfer.

Dros yr hir dymor, yr unig ffordd o ostwng lefelau plwm fydd adnewyddu'r holl bibellau yn eich cartref, ynghyd â'r bibell wasanaeth os yn blwm.

## CYFRIFOLDEB AM Y PIBELLAU



Mae pibell wasanaeth yn cysylltu eich cartref â'r rhwydwaith dŵr yn y stryd. Bydd stoptap ar y bibell hon, mewn siambr ger ffin eich tir – fel arfer yn y palmant. Gall y siambr hefyd gynnwys mesurydd dŵr.

Eiddo'r cwmni dŵr yw'r rhan o'r bibell sy'n cysylltu'r rhwydwaith yn y stryd â ffin eich tir a chyfrifoldeb y cwmni yw ei gynnal mewn cyflwr da.

Eich cyfrifoldeb chi (y perchennog) yw'r rhan o'r bibell wasanaeth yn ymestyn o ffin eich tir i'r pwynt ble bydd yn mynd i mewn i'r cartref, ynghyd â'r holl bibellau yn y tŷ. Felly, mae'n debyg eich cyfrifoldeb chi fydd unrhyw ollyngiad yn yr ardd neu o dan eich llwybrau. Fodd bynnag, bydd llawer o gwmnïau dŵr yn helpu gyda gwaith trwsio ar ochr y cwsmer o'r bibell wasanaeth.

## DYCHWELYD I ADEILAD GWAG

Os bydd eich cartref yn wag am fis neu fwy a dŵr heb ei ddefnyddio, bydd yr ansawdd yn dirywio. Gall hynny arwain at broblemau blas ac arogl, a salwch mewn achosion difrifol. Felly, bydd yn werth fflysio'r system gyflawn (pibellau poeth ac oer) os na fydd wedi ei defnyddio am dros fis.

## PARATOI AR GYFER Y GAEAF

Cyngor i'ch helpu drwy'r gaeaf:



- *Trwsio tapiau a gorlifiadau sy'n diferu – mae dŵr yn diferu'n gallu rhewi a blocio pibellau*
- *Sicrhau fod y stoptap yn gweithio'n iawn (o dan y sinc neu mewn toiled lawr llawr)*
- *Inswleiddio pibellau mewn manau oer a drafftio fel toi ac adeiladau allanol*
- *Defnyddio deunydd inswleiddio gwrth-ddŵr ar bibellau sy'n agored i'r tywydd a chadw lakin yn sych*
- *Inswleiddio tapiau allanol neu eu troi i ffwrdd ar y stoptap mewnol a gadael yn agored i'w draenio*
- *Trefnu gwasanaeth rheolaidd ar y system gwres canolog*
- *Nodi manylion cyswllt y plymwr rhag ofn bydd argyfwng*
- *Inswleiddio tanciau stôr yn y to*
- *Atal rhag gosod deunydd inswleiddio o dan y tanc stôr. Bydd aer cynnes o'r ystafell isod yn helpu i atal y dŵr rhag rhewi.*

## DŴR GLAS

Cynhyrchir tanciau dŵr poeth a'r rhan fwyaf o bibellau tai o gopr. Mewn adeiladau newydd iawn, neu rai gyda phibellau newydd, mae gronynnau copr yn gallu mynd i'r dŵr tan i haen ddiogel ddatblygu tu fewn y pibellau. Fel arfer, ni fydd yn achosi problem ar wahân i rywffaint o staenio, yn arbennig yn achos bath neu sinc gwyn. Fodd bynnag, weithiau gall y dŵr ddatblygu arlliw glas os bydd yn sefyll mewn pibellau am gyfnod. Dylai ddiflannu mewn ychydig ddyddiau wrth i'r haen ddatblygu o fewn y pibellau. Os yn parhau, cysylltwch â'r cwmni adeiladu neu blymwr cymwys.

## CYNGOR PIBELLAU PRESWYL

Wrth newid pibellau neu ffitiadau dŵr yn eich cartref, defnyddiwch ddeunyddiau wedi'u cymeradwyo ar gyfer dŵr yfed. Mae gwaith plymwr yn gallu effeithio ansawdd eich dŵr yfed.

Mae logo 'WRAS Approved' yn profi fod cwmnïau dŵr wedi gwirio ac ardystio fod deunyddiau'n dilyn y rheoliadau er sicrhau na fyddant yn effeithio dŵr yfed.



## CYNLLUNIAU PLYMWYR CYMERADWYEDIG

Bydd rhywun gyda sgiliau rhesymol yn gallu gwneud llawer o waith plymwr syml yn ddiogel, gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u cymeradwyo gan WRAS. Fodd bynnag, bydd angen cyflogi plymwr cymwys i gyflawni tasgau mwy cymhleth.

Edrychwch am aelodau cynllun plymwr cymeradwyedig neu aelodau cymdeithas plymwr proffesiynol, neu gorff masnachol fel IPHE (Institute of Plumbing and Heating Engineering), APHC (Association of Plumbing and Heating Contractors), Scottish and Northern Ireland Plumbing Employers Federation (SNIPEF) neu HVCA (Heating and Ventilating Contractors' Association), neu aelodau cynllun TrustMark ([www.trustmark.org.uk](http://www.trustmark.org.uk)) a noddir gan y llywodraeth.

Bydd aelodau cynlluniau cymeradwyedig wedi'u gwirio i brofi eu bod yn blymwr profiadol ac wedi pasio prawf gwybodaeth o'r Rheoliadau Ffitiadau Dŵr (is-ddeddfau dŵr yn yr Alban). Byddant yn darparu tystysgrifau yn cadarnhau fod eu gwaith yn dilyn y Rheoliadau Ffitiadau Dŵr. Bydd y cynlluniau'n gwirio eu gwaith o bryd i'w gilydd ac yn ymchwilio cwynion gan gwsmeriaid am safon eu gwaith. Mae contractwyr cymeradwyedig yn gallu anwybyddu rhai gofynion i hysbysu gwaith plymwr ymlaen llaw, gan roi mwy o hyblygrwydd i amseru eu gwaith.

Mae rhai cwmnïau'n cynnal cynlluniau eu hunain:

Anglian Water – Aplus ([www.anglianwater.co.uk](http://www.anglianwater.co.uk))

Severn Trent - WaterMark Scheme ([www.stwater.co.uk](http://www.stwater.co.uk))

Thames Water – TAPS ([www.thameswater.co.uk](http://www.thameswater.co.uk))

Mae cwmnïau eraill yn cefnogi WIAPS (Water Industry Approved Plumber Scheme) a weinyddir gan WRAS ([www.wras.co.uk/WIAPS/](http://www.wras.co.uk/WIAPS/)).



Os am gysylltu â phlymwr cymeradwyedig, ewch i wefan y corff sy'n cynnal y cynllun, neu cysylltwch â'r cwmni dŵr lleol.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau dŵr yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd dŵr yfed ar eu gwefannau. Dyma restr:

Anglian Water Services Ltd (yn cynnwys Hartlepool Water)	<a href="http://www.anglianwater.co.uk">www.anglianwater.co.uk</a>
Bournemouth & West Hampshire Water plc	<a href="http://www.bhwwater.co.uk">www.bhwwater.co.uk</a>
Bristol Water plc	<a href="http://www.bristolwater.co.uk">www.bristolwater.co.uk</a>
Cambridge Water plc	<a href="http://www.cambridge-water.co.uk">www.cambridge-water.co.uk</a>
Dee Valley Water plc	<a href="http://www.deevalleygroup.com">www.deevalleygroup.com</a>
Dŵr Cymru Welsh Water	<a href="http://www.dwrcymru.co.uk">www.dwrcymru.co.uk</a>
Folkestone & Dover Water Services Ltd	<a href="http://www.fdws.co.uk">www.fdws.co.uk</a>
Mid Kent Water Ltd (South East Water)	<a href="http://www.southeastwater.co.uk">www.southeastwater.co.uk</a>
Northern Ireland Water	<a href="http://www.niwater.com">www.niwater.com</a>
Northumbrian Water Group plc (includes Essex and Suffolk Water)	<a href="http://www.nwl.co.uk">www.nwl.co.uk</a> <a href="http://www.eswater.co.uk">www.eswater.co.uk</a>
Portsmouth Water Ltd	<a href="http://www.portsmouthwater.co.uk">www.portsmouthwater.co.uk</a>
Scottish Water	<a href="http://www.scottishwater.co.uk">www.scottishwater.co.uk</a>
Severn Trent plc	<a href="http://www.stwater.co.uk">www.stwater.co.uk</a>
South East Water Ltd	<a href="http://www.southeastwater.co.uk">www.southeastwater.co.uk</a>
South Staffs Water plc	<a href="http://www.south-staffs-water.co.uk">www.south-staffs-water.co.uk</a>
South West Water Ltd	<a href="http://www.southwestwater.co.uk">www.southwestwater.co.uk</a>
Southern Water	<a href="http://www.southernwater.co.uk">www.southernwater.co.uk</a>
Sutton and East Surrey Water plc	<a href="http://www.waterplc.com">www.waterplc.com</a>
Tending Hundred Water Services Ltd	<a href="http://www.thws.co.uk">www.thws.co.uk</a>
Thames Water	<a href="http://www.thameswater.co.uk">www.thameswater.co.uk</a>
Three Valleys Water plc	<a href="http://www.3valleys.co.uk">www.3valleys.co.uk</a>
United Utilities plc	<a href="http://www.unitedutilities.com">www.unitedutilities.com</a>
Wessex Water Services Ltd	<a href="http://www.wessexwater.co.uk">www.wessexwater.co.uk</a>
Yorkshire Water Services Ltd	<a href="http://www.yorkshirewater.com">www.yorkshirewater.com</a>

Cyngor pellach am ansawdd dŵr gan awdurdodau rheoli ansawdd dŵr annibynnol Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon:

Arolygaeth Dŵr Yfed (Cymru a Lloegr)	<a href="http://www.dwi.gov.uk/">www.dwi.gov.uk/</a>
Drinking Water Quality Regulator for Scotland	<a href="http://www.dwqr.org.uk/">www.dwqr.org.uk/</a>
Drinking Water Inspectorate (Northern Ireland)	<a href="http://www.ehsni.gov.uk/water/drinkwater.htm">www.ehsni.gov.uk/water/drinkwater.htm</a>

Cyngor plymwyrr a Rheoliadau Gosodiadau Dŵr:

Water Industry Approved Plumber Scheme (WIAPS)	<a href="http://www.wras.co.uk/WIAPS/">www.wras.co.uk/WIAPS/</a>
Water Regulations Advisory Scheme (WRAS)	<a href="http://www.wras.co.uk">www.wras.co.uk</a>

Cyngor ffilterau a meddalwyr dŵr:

British Water	<a href="http://www.britishwater.co.uk">www.britishwater.co.uk</a>
UK Water Treatment Association (UKWTA)	<a href="http://www.ukwta.org">www.ukwta.org</a>
Domestic Water Treatment Association (DWTA)	<a href="http://www.dwta.org.uk">www.dwta.org.uk</a>

Cymdeithasau proffesiynol a masnachol plymwyrr:

Institute of Plumbing and Heating Engineering	<a href="http://www.iphe.org.uk/">www.iphe.org.uk/</a>
Association of Plumbing and Heating Contractors	<a href="http://www.competentpersonsscheme.co.uk/">www.competentpersonsscheme.co.uk/</a>
Scottish and Northern Ireland Plumbing Employers Federation	<a href="http://www.snipef.org/index.php">www.snipef.org/index.php</a>
Heating and Ventilating Contractors' Association	<a href="http://www.hvca.org.uk/">www.hvca.org.uk/</a>